**EITEM AR YR AGENDA: 17**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 20fed Rhagfyr 2004 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn cyflwyno'r 'hawl i wybod', ac mae'n gwneud darpariaeth i ddatgelu gwybodaeth sydd gan awdurdodau cyhoeddus neu eraill sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan.

1.2 Lle bo'r Ddeddf Diogelu Data 1998 yn ceisio diogelu preifatrwydd personol, mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ceisio gosod gwybodaeth yn eiddo i'r cyhoedd. Ei bwriad yw sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd agored ac atebol.

1.3 Daeth Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i rym ym mis Tachwedd 2000, ond mae'n cael ei rhoi ar waith mewn camau. Bydd y darpariaethau i gyd, gan gynnwys hawl yr unigolyn i fynediad, yn dod i rym ar Ionawr 1af 2005.

2. **GWYBODAETH**

2.1 Mae'r Ddeddf yn gosod gwybodaeth yn eiddo i'r cyhoedd trwy ddau ddull gwahanol:

a) mae gan unrhyw berson sy'n gwneud cais ysgrifenedig i awdurdod cyhoeddus hawl i gael gwybod yn ysgrifenedig a oes gan yr awdurdod yr wybodaeth ai peidio – "y ddyletswydd i gadarnhau neu wadu" – ac, os hynny, gael yr wybodaeth hwnnw, <u>yn amodol ar eithriadau</u>;

b) mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus ddatgelu, trwy eu cynllun cyhoeddiadau, y dosbarthiadau o wybodaeth y mae'r awdurdod yn eu cyhoeddi neu'n bwriadu eu cyhoeddi, y ffordd y cânt eu cyhoeddi, ac a fyddant ar gael am ddim ai peidio.

2.2 Byddai pobl sy'n dymuno cael gwybodaeth bersonol amdanynt eu hunain yn gwneud hynny trwy wneud 'cais mynediad dinesydd' (*subject access request*) fel y nodir yn y Ddeddf Diogelu Data. Byddai pobl sy'n dymuno cael gwybodaeth swyddogol am Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gwneud hynny dan yr hawl gyffredinol i fynediad dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

2.3 Byddai ceisiadau am wybodaeth am unigolyn heblaw am y sawl sy'n gwneud y cais yn gorfod cael ei wirio am gydymffurfiaeth gydag egwyddorion Diogelu Data.

2. **GWYBODAETH** *(parhad)*

2.4 Mae'r eithriadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.1 uchod yn dod dan ddau gategori:

- mae wyth ohonynt yn eithriadau llwyr sy'n ymwneud â materion diamwys megis lle mae'r wybodaeth eisoes yn hawdd ei gael i'r sawl sy'n gwneud cais trwy ffyrdd eraill, ac
- mae pymtheg ohonynt yn eithriadau cymwys sy'n gofyn am ryw elfen o ddehongliad neu ystyriaeth o'r amgylchiadau, megis mewn achos o brawf o 'ddiddordeb cyhoeddus'.

2.5 Fel arfer, byddai gan yr awdurdod 40 o ddiwrnodiau calendr i ymateb i gais dan y Ddeddf Diogelu Data, ac 20 diwrnod gwaith i ymateb i gais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

2.6 Byddai angen i gais dan y Ddeddf Diogelu Data ddod gyda'r ffi safonol gywir (sef £10 ar hyn o bryd); byddai cais tebyg dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn agored i raddfa ffioedd fel sydd yn y rheoliadau.

2.7 Cyhoeddwyd cynllun cyhoeddiadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Chwefror 2003, ac mae nawr yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau a'r cynnydd a wnaed ers hynny.

2.8 Mae polisïau a gweithdrefnau mewnol hefyd wrthi'n cael eu datblygu i sicrhau bod y ceisiadau am wybodaeth a ddaw i law wedi Ionawr 1af 2005 yn cael eu trin yn briodol ac yn effeithlon.

3. **ARGYMHELLION**

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.